# CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yn Ysgol Bro Teifi a drwy gyfrwng Zoom, ar 13eg Mawrth 2023**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Ysgol Bro Teifi and on Zoom, on 13th March 2023**

**Yn Bresennol/Present**:

Cynghorwyr/Cllrs Matt Adams, Eileen Curry, Beth Davies, Douglas Davies, Keith Evans, Peter Evans, Elen Grantham, Mike Hotson, Andrew Howell, Gethin Jones, Sue Lloyd a Chynghorydd Sir/and County Councillor Maldwyn Lewis

**Ymddiheuriadau/Apologies** Ni chafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr / No apologies for absence were received.

**Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest**

Datgelodd y Cyng Keith Evans ddiddordeb yn y ceisiadau a wnaed gan Grŵp Cymunedol Ardd a Llandysul ynghylch digwyddiad y Coroni. Cafwyd datganiadau o ddiddordeb hefyd gan y Cyng Matt Adams gyda chais am arian gan Yr Ardd a'r Cynghorydd Mike Hotson ar gyfer Grŵp Cymunedol Llandysul ynglŷn â digwyddiad y Coroni, gyda'u cais am gyllid/

Cllr Keith Evans disclosed an interest in the applications made by the Ardd and Llandysul Community Group re the Coronation event. Declerations of intrest were also given by Cllr Matt Adams with the request for funding from Yr Ardd and and Cllr Mike Hotson for the Llandysul Community Group re the Coronation event, with their request for funding.

**Adroddiad/Report**

Ni chafwyd adroddiad gan PSCO Anwen Davies a oedd yn cyddig Diweddariad am Droseddau a Digwyddiadau yn ardal y Cynor dros y mis diwethaf/No report was received from PCSO Anwen Davies providing a Crime and Incident Update for the Councils area for the past month.

**Cofnodion/Minutes**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ôl newid Dryslwyn i Derlwyn dan eitem Capel Dewi materion Wardiau brys / Minutes of monthly meeting held on 14 February 2023 were confirmed and signed following changing under Capel Dewi ward urgent ward matters from Dryslwyn to Derlwyn.

| | |
|---|---|
| **Materion yn Codi: -**<br>**<u>Gŵyl Arddio</u>**<br>Adroddodd y cynghorwyr y bu'r Ŵyl Arddio yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn.<br>**<u>Pontsiân</u>**<br>Roedd Cynghorydd Gethin Jones wedi gofyn i'r gwirfoddolwyr sy'n plannu ym Mhontsiân i gadw unrhyw dderbynebau y maent wedi'u talu a'u cyflwyno i'r Cyngor Cymuned er mwyn iddynt gael ad-daliad.<br>**<u>Clic</u>**<br>Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â clic gan nodi nad yw hi'n gallu gweld y mapiau er mwyn nodi lleoliadau'r problemau sy'n codi.<br>**<u>Hysbysfwrdd Capel Dewi</u>**<br>Hysbyswyd y Cynghorwyr gan y clerc bod y gwaith o drwsio Hysbysfwrdd Capel Dewi wedi cael ei drefnu.<br>**<u>Cyfarfodydd Hybrid</u>**<br>Roedd y clerc wedi cael dyfynbris gan Telemat a Cliand computers Ltd am offer sy'n debyg i'r hyn yr ydym yn ei ddefnyddio nawr ym Mro Teifi. Dyfynbris Telemat oedd £4858.65 a dyfynbris Cliand oedd £4490.75, ac roedd y ddau yn cynnwys TAW. Roedd Telemat wedi cynnwys dyfynbris am system newline hefyd, am £6800.79.<br>Roedd Cyng Maldwyn Lewis wedi bod mewn arddangosiad o Dechnoleg Cynadledda Owl yn Neuadd Llechryd. Penderfynwyd gofyn i Telemat a fyddai modd iddynt gynnig arddangosiad i ni yn ystod y cyfarfod nesaf a gynhelir yn y Ganolfan Ieuenctid.<br><br>**4) Ceisiadau am Gyllid:**<br>Ymunodd Cyng Peter Evans ar cyfarfod.<br><br>**<u>Yr Ardd</u>**<br><br>Datgelodd Cynghorwyr Keith Evans a Matt Adams eu budd mewn perthynas â'r mater hwn a gadawont y cyfarfod a chadeirwyd y mater gan yr Is-Gadeirydd.<br>Gofynnwyd am rodd o £800 er mwyn hyrwyddo gardd gymunedol Yr Ardd ac er mwyn creu ymwybyddiaeth o fyw'n iach yn ystod digwyddiad Gŵyl Natur. Roedd y Cynghorwyr yn dymuno cael mwy o wybodaeth am y gwariant cyn gwneud penderfyniad. Caiff hwn ei gynnwys ar agenda cyfarfod mis nesaf. | **Matters Arising: -**<br>**<u>Gwyl Arddio</u>**<br>Councillors reported that the Gwyl Arddio Llandysul had been a very successful event.<br>**<u>Pontsian</u>**<br>Cllr Gethin Jones had asked the volunteers that undertake planting work at locations in Pontsian, to retain invoices so that they can be reimbursed by the Community Council.<br>**<u>Click</u>**<br>It was decided that the clerk contact officers at Ceredigion's Click department noting that she could not see the maps on their system to accurately identify and plot in the locations of problems that require action by the County Council.<br>**<u>Noticeboard Capel Dewi</u>**<br>The clerk advised Councillors that the fixing of Capel Dewi Noticeboard had been arranged.<br>**<u>Hybrid Meetings</u>**<br>The clerk had obtained a quotation from Telemat and Cliand computers Ltd for equipment similar to what we are trialling now at Ysgol Bro Teifi. Telemat was £4858.65 and Cliand £4490.75 both included VAT. Telemat had also included a newline system for £6800.79.<br>Cllr Maldwyn Lewis reported that he had been in a demonstration of Owl Conference Technology in Llechryd Hall. It was decided to ask Telemet to see if they could provide a demonstration for us at the next meeting to be held at the Youth Centre.<br><br>**4) Funding Applications:**<br>Cllr Peter Evans joined the meeting at this point.<br>**<u>Yr Ardd</u>**<br>During consideration of this matter Cllrs Keith Evans and Matt Adams withdrew from the meeting room and took no part in the decision-making process and the Vice-Chair assumed the Chair.<br>A request for donation of £800 was asked for to promote Yr Ardd community garden and create awareness for healthy living during a Gwyl Natur event. The Councillors wished to receive more information regarding expenditure before making a decision. To be |

**Grŵp Cymunedol Llandysul**

Datgelodd Cynghorwyr Keith Evans a Mike Hotson eu budd mewn perthynas â'r mater hwn a gadawont y cyfarfod.
Gofynnwyd am rodd o £3500 er mwyn dathlu'r Coroni trwy drefnu digwyddiad yn y parc yn Llandysul. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd rhoi £500.

**5) Materion i'w Trafod**

**Lle Chwarae Plant Llandysul**
Bydd yr is-bwyllgor yn cynnig cyngor am unrhyw ddatblygiadau ar gyfer y parc.
**Sedd Wag**
Roedd Mr R Winter wedi gwrthod y gwahoddiad i fod yn Gynghorydd oherwydd salwch. Penderfynwyd diolch iddo am ei ddiddordeb a dymuno'n dda iddo.
Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir a'u hysbysu o'r ffaith bod dwy sedd wag yn Ward Llandysul.
**Cinio Blynyddol**
Penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd drefnu cinio blynyddol, a hynny yn ystod y gwyliau Pasg os oes modd
**Plannu Dysglau Blodau yn Llandysul**
Roedd Cynghorydd Andrew Howell wedi darparu adroddiad ysgrifenedig ynghylch plannu yn Llandysul. Penderfynwyd gofyn i Mr Richard Bramley o Farmyard Nurseries a fyddai modd iddo gyflawni'r gwaith angenrheidiol eleni am ffi. Penderfynwyd y dylai Cynghorydd Andrew Howell holi i weld a fyddai'r Ardd yn fodlon cynorthwyo gyda'r gwaith chwynnu. Mae manyleb ar gyfer y gwaith dyfrio eisoes yn ei lle. Bydd angen i Cynghorwyr Andrew Howell a Keith Evans greu manyleb ac amserlen chwynnu yn ogystal ag amserlen blannu yn barod i geisio dyfynbrisiau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**Materion Ward Brys**

**Pontsiân**
Estynnodd Cynghorydd Gethin Jones longyfarchiadau i Ffermwyr Ifanc Pontsiân am

put back on the agenda next month.

**Llandysul Community Group (Coronation Event)**
During consideration of this matter Cllrs Keith Evans and Mike Hotson withdrew from the meeting room and took no part in the decision-making process.
A request for £3500 was asked for to celebrate the Coronation by organising an event in Llandysul. Following a discussion, it was decided to donate £500.

**5) Matters for Discussion**

**Llandysul Children's Play area**
The sub-committee to advise on any developments for the play area at the next meeting.
**Vacant Seat**
Mr R Winter declined the invitation to become a Councillor due to ill health. It was decided to thank him for his interest and wish him well. It was decided that the clerk contact the County Council informing them of two vacancies in the Llandysul Ward.
**Annual Dinner**
It was decided that the Chair arrange an annual dinner. If possible, during the Easter holidays
**Planting Flower troughs in Llandysul**
Councillor Andrew Howell had provided a written report on planting in Llandysul. It was decided to ask Mr Richard Bramley of Farmyard Nurseries if he could undertake the work needed this year for a fee. It was decided that Councillor Andrew Howell approach the Community Ardd project to see if they would be willing to assist with the weeding. A watering specification is already in place. Cllrs Andrew Howell and Keith Evans needs to scope a weeding specification and schedule as well as a planting schedule in readiness to seek quotations for the next financial year.

**Urgent Ward Matters**

**Pontsian**
Cllr Gethin Jones congratulated Pontsian

| | |
|---|---|
| eu llwyddiant yn ddiweddar, ac estynnwyd llongyfarchiadau i Endaf Griffiths am orffen yn 2il yng ngwobr yr Actor Gorau ar draws Cymru.<br>**Llandysul**<br>Keith Evans am Grant Marchnata Llandysul. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gweinyddu'r grant. Byddai'r Cyng Evans yn darparu crynodeb o'r math o brosiect sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun i atgoffa'r aelodau.<br>Mae twll mawr wedi ymddangos yn y ffordd wrth fynedfa Heol Llynyfran. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Adran Briffyrdd,<br>Hysbyswyd yr aelodau gan Gynghorydd Matt Adams y byddent yn cynnal prynhawn tacluso yng Nghalon Tysul rhwng 2 a 4 ar 26 Mawrth, pe byddai modd i unrhyw un helpu<br><br>Cyflwynwyd y negeseuon e-bost a gafwyd fel gohebiaeth rhwng 10 Ionawr 2023 ac 14 Chwefror 2023.<br><br>**Adroddiad gan Gynghorwyr Sir**<br>Anfonwyd adroddiad manwl at yr holl Gynghorwyr yn eu hysbysu o weithgareddau misol Ward De Llandysul y Cynghorydd Keith Evans.<br>Rhoddwydd adroddiad ar lafar gan y Cyng Maldwyn Lewis am Wardiau Gogledd Llandysul a Throedyraur.<br>**Gohebiaeth**<br>Cafwyd Clerks and Councils Direct a thaflen Glasdon.<br><br>**7 Cynllunio:**<br>Ni chafwyd unrhyw geisiadau.<br><br>**Anfonebau: -**<br>**Darparwyd gwybodaeth a derbyniwyd y dylid ysgrifennu siec i'w thalu**<br>Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y gwaith cyfieithu ym mis Ionawr a mis Chwefror a derbyniwyd y dylid ei thalu | Young Farmers on their recent success and congratulation were extended to Endaf Griffiths for being runner-up in Best Actor award throughout Wales.<br>**Llandysul**<br>Cllr Keith Evans provided an update on the Llandysul Marketing grant scheme. It was decided that Clerk would administer the grant scheme. Cllr Evans would provide a summary of the project type included in the scheme to remind members.<br>A large pothole has appeared on the entrance to Llynyfran Road. Clerk to contact the Highway's Department.<br>Cllr Matt Adams informed members that on the 26th of March they would be holding a tidy up afternoon at Calon Tysul between 2-4pm and if anyone was available to volunteer some time.<br><br>E-mail correspondence received from 10 January 2023 to 14 February 2023 was tabled.<br><br>**Report by County Councillors**<br>A detailed report was sent to all Councillors informing them of County Cllr Keith Evans Llandysul South ward monthly activities.<br>Cllr Maldwyn Lewis provided an oral update on the Llandysul North and Troedyraur ward.<br>**Correspondence**<br>Clerks and Councils Direct as well as Glasdon brochure was received.<br><br>**7 Planning:**<br>No applications were received.<br><br>**Invoices: -**<br>**Information provided and cheque passed in payment**<br>Llinos Jones – Invoice for January and February translation was received and approved for payment. |

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

*Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/*
*Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-*

| | | *£ c/£ p* | *Rhif siec Cheque number* |
|---|---|---|---|
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translation | 121.93 | 001093 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerk/Clerk Wages | 530.44 | 001094 |
| HMRC | Cyflog y Clerk/Clerk Wages | 132.60 | 001095 |
| Nia Davies | Postio/Postage | 7.60 | 001097 |
| Llandysul Community Group | Rhodd/Donation | 500.00 | 001098 |
| Ysgol Bro Teifi | Cyfarodydd/Meetings | 210.00 | 001099 |